**Cofnodion cyfarfod Pwyllgor yr Amgylchedd Cyngor Cymuned Llandybïe a gynhaliwyd yn Swyddfeydd y Cyngor, y Stryd Fawr, Llandybïe, a thrwy gyfrwng Microsoft Teams, ar ddydd Mercher, Chwefror 19eg, 2025 am 7.16 yh.**

**Presennol**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cynghorwyr | Mrs A. J. Evans<br>J.W. Tandy | H. Davies<br>C. R. Thomas | P. H. Roberts, |
| **Yn mynychu arlein:** | A. Thomas | D. Thomas | D. Hopkins |

**Ymddiheuriadau:** Cyng G. J. Davies a'r Cyng L. Wilkins

**603.**

**Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb:**

Roedd y Cyng G. J. Davies a'r Cyng L. Wilkins wedi hysbysu'r Clerc nad oeddent yn gallu mynychu'r cyfarfod.

**Datganiadau o Fuddiant**

Nid oedd unrhyw ddatganiad.

**604.**

**Diweddariad y Clerc ynghylch Prosiect Banc Y Draenen.**

Roedd y Clerc wedi cynnig y diweddariad canlynol:

- Erbyn hyn mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi cytuno gosod clawdd ar hyd y parc, ynghyd â dwy fainc plannu, heb unrhyw gost i'n cyllideb ni.

- Mae'r wyneb caled wedi'i drafod gyda Chyngor Sir Caerfyrddin ac mae nhw wedi cynnig chwalu'r wyneb, gan ail-blannu glaswellt, a'r cyfan o'u cyllideb eu hunain. Croesaw-wyd hyn gan y Cynghorwyr, ynghyd â'r cynnig i osod mainc blannu ychwanegol. Roedd y Clerc wedi cadarnhau bod cyllideb yn ei lle erbyn hyn i osod gât yn y man agosaf at yr heol fawr er mwyn darparu llwybr hamdden drwy ardal y ddôl newydd.

- Roedd hefyd yn gweithio gyda'r cyngor i reoli ardaloedd dolydd a phrysgwydd gan gyflwyno cynlluniau torri a phlannu sensitif.

Cadeirydd

- Gofynnodd y Clerc i'r Cynghorwyr os roedd ganddynt unrhyw welliannau i ychwanegu at yr arolwg ecolegol manwl, a'r ddogfen argymell a gafodd ei dosbarthu. Cafodd y dogfennau dderbyniad positif, ar wahan i'r amheuaeth canlynol:

  Y datganiad yn cyfeirio at y cynllun o adeiladu 19 tŷ, yn unol â chais cynllunio PL/06641 ar dir oddiar Bryn Dreinog. Dywedwyd y byddai Banc Y Ddraenen yn gwrthbwyso'r effaith ar ecoleg a achosir gan y datblygiad, pe byddai'n derbyn caniatâd cynllunio. Roedd y Cynghorwyr am nodi y dylai Banc Y Ddraenen a'r cynnig i sefydlu gwarchodfa natur sefyll ar ei werth ei hun, a dylai unrhyw golled ecolegol ar safleoedd eraill fod y lleiaf posibl. Ni ddylid defnyddio prosiect Banc Y Ddraenen fe modd o liniaru ar effaith andwyol datblygiadau eraill.

**605.**

**Prosiect Gardd Gymunedol Cwmgwili a'r Prosiect Neuaddau Cymunedol ehangach.**

Eglurodd y Clerc ei fod wedi bod yn trafod gyda Chymuned Cwmgwili, ac wedi cael gwybod nad oedd gan y cyngor unrhyw hawl ar Barc Cwmgwili a'r ardal gyfagos, ac y byddwn yn rhoi'r gorau i'w indemnio ar ddiwedd Mawrth 2025. Serch hynny, mae Cymuned Cwmgwili yn cynllunio gwneud gwaith cadarnhaol i wella'r ardal, gan gynnwys gwaith i wella'r Ardd Gymunedol.

**606.**

**Gwenynwyr lleol yn Cynnig Cychod Gwenyn.**

Roedd y Clerc wedi atgoffa'r aelodau i'w ebostio os roeddent yn credu bod ganddynt safleoedd addas yn eu wardiau, safleoedd a oedd yn ddiarffordd ac heb fod yn rhy agos i ardaloedd tai poblog.

**607.**

**Trafodaeth ynghylch Datrysiad Gwresogi Gwyrdd ar gyfer Pafiliwn Llandybïe.**

Roedd y Clerc wedi diweddaru'r cynghorwyr, gan ddweud bod y system wresogi ym Mhafiliwn Llandybïe wedi derbyn 3 dyfynbris i osod y system newydd, yn cynnwys Pwmp Gwres Ffynhonell Aer ac, yn dilyn cadarnhad o'r dyfynbris gorau, byddai'r gwaith, a fydd y para am fis, yn cychwyn ym Mai 2025.

**608.**

**Trafodaeth ynghylch y fenter Baeddu gan Gŵn.**

Roedd y Clerc wedi trafod y cynllun gweithredu a oedd wedi dosbarthu cyn y cyfarfod, a nododd mewn manylder ei drafodaethau positif gyda'r Heddlu, y

Cadeirydd

Wardeiniaid Cŵn a'r cynnig o Gamerau Teledu Cylch Cyfyng symudol i dargedu mannau problemus; eglurodd ei fod eisoes wedi astudio'r goblygiadau cyfreithiol.

**Penderfynwyd** argymell bod y cynllun gweithredu yn cael ei ddiweddaru a'i fabwysiadu, yn amodol ar cael ei dderbyn a'i drafod ymhellach yn y Cyfarfod Cyffredin nesaf.

**609.**

**Trafodaeth ynghylch ynni solar yn y toiledau, a goleuadau a reolir gan synhwyrydd symudiad.**

Eglurodd y Clerc ei fod yn y broses o gostu paneli solar a synwyryddion symudiad ar gyfer y toiledau, ac ambell i ardal sy'n dywyll gyda'r nos yn ein parciau, at ddiben diogelwch ac am resymau arbed ynni.

**Argymhellwyd** bod y Clerc yn cyflwyno'r canfyddiadau a'r costau hyn yng nghyfarfod nesaf Pwyllgor yr Amgylchedd.

**610.**

**Mabwysiadu Mesuryddion SMART.**

Eglurodd y Clerc y byddai'r defnydd ynni yn y swyddfeydd a'r siambr yn cael ei fesur gan Fesurydd Trydan SMART wedi i'r landlordiaid gytuno bod yr adeilad cyfan yn derbyn mesuryddion SMART.

**Argymhellodd** y Clerc bod y cyngor yn **derbyn** y cynnig, a'n bod yn defnyddio hyn fel cyfle i asesu dichonoldeb a dibyniaeth y fath gynllun yn nhermau gosod Mesuryddion SMART yn yr holl safleoedd sydd o dan ein rheolaeth.

**611.**

**Dyddiad y cyfarfod nesaf.**

Argymhellodd y Clerc ei fod yn galw'r cyfarfod nesaf pan fydd digon o gynnydd wedi'i wneud ynghylch yr amrywiol brosiectau.

**612.**

Gan nad oedd unrhyw fusnes pellach i'w drafod, daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben a 8.20 yh.

Cadeirydd